

YSGOL GYMRAEG TRELYN

Cymraeg yw Iaith ein Taith



Ysgol Gymraeg Trelyn

Crynodeb Cwricwlwm



Ysgol Gymraeg Trelyn

Ein Cymuned



Ein Gwlad



Ein Byd



Sefydlwyd Ysgol Gymraeg Trelyn ym Medi 1991. Roedd Uned Gymraeg ar y safle ym Mhengam yn barod. Lleolwyd yr Uned yno yn hen adeiladau Ysgol Gynradd y pentref yn 1977 pan roddwyd safle newydd ar gyfer yr ysgol bentref. Tyfodd yr Uned ym Mhengam gyda thwf addysg gyfrwng Gymraeg yn ardal Coed-duon, ac wedi sefydlu'r ysgol bu twf pellach, ac erbyn heddiw mae tua 200 o blant yn mynychu'r ysgol.

Mae dalgylch yr ysgol yn cwmpasu rhannau o Bontllanfraith, y Penllwyn, Fair View, rhannau o dref y Coed-duon, a phentrefi Pengam a Fleur de Lis.

Yn unarddeg oed fe fydd y plant yn trosglwyddo i'r sector Uwchradd yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, ger pentref Fleur de Lis.

Mae pob dosbarth yn ymgorffori teithiau cerdded yn ein hamgylchedd lleol fel rhan hanfodol o'n cwricwlwm. Rydym eisiau rhoi cyfleoedd a phrofiadau i'n disgyblion sy'n rhagori ar eu disgwyliadau. Rydym am helpu ein disgyblion i sylweddoli bod byd o gyfleoedd ar gael iddynt.

Mae trwytho ein dysgwyr gydag angerdd a balchder yn ei hunain, eu cymuned, eu gwlad a'u byd yn ganolog i ddyluniad ein cwricwlwm.

Ysgol Gymraeg Trelyn Rhesymnaith Gwricwlwm

Ein Gweledigaeth

Nod a gweledigaeth ein hysgol yw sicrhau bod ein dysgwyr yn fentrus ac yn chwilfrydig. Rydym am ddarparu cyfleoedd i'r dysgwyr fod yn ddysgwyr cydwybodol, hyderus sydd yn cyrraedd eu potensial llawn.

Yma, yn Ysgol Trelyn, gosodwn ddisgwyliadau uchel a chyfleoedd eang, er mwyn i'n dysgwyr fod yn ddysgwyr uchelgeisiol, gwybodus ac egwyddorol sydd gyda'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i ddatblygu'n ddysgwyr gydol oes.

Fe fyddwn yn gweithio'n gytûn er mwyn rhoi'r addysg gorau i'n plant ac i sicrhau eu bod yn datblygu i fod yn ddysgwyr cydwybodol, cyfrifol, caredig sy'n derbyn y gefnogaeth i lwyddo ar gyfer dyfodol Cymru.

Ein Gwerthoedd

Buom yn gwrandao ar ddysgwyr, rhieni, staff a llywodraethwyr yr ysgol a'r 9 gair allweddol gododd amlaf wrth drafod ein gwerthoedd oedd:

dyfalbarhad
cwrteisi
caredigrwydd
haeloni
balchder
ymdrech
parch
gwytnwch
diolchgarwch

Mae lles ein disgyblion yn ganolog i'n cwricwlwm yn Ysgol Trelyn. Er mwyn ymrwymo a ffynnu gyda'u haddysg mae'n holl bwysig bod lles cymdeithasol, emosiynol a chorfforol ein disgyblion yn gadarn. Hyrwyddwn awyrgylch ble mae holl ddisgyblion yr ysgol gyda llais a mewnbwn i'r penderfyniadau a'r dewisiadau sydd yn effeithio ar eu haddysg a'u lles. Ein nod yw meithrin perthnasoedd cryf gyda rhieni/gofalwyr a'r gymuned er mwyn cefnogi'r dysgu i'r eithaf.

Mae dysgwyr Ysgol Gymraeg Trelyn yn dathlu'r iaith Gymraeg, eu diwylliant a'u treftadaeth ar draws eu gwaith.



Yr hyn sy'n bwysig
i ni yn Nhrelyn yw:

Cymreictod

Ymdrech

Parch

Cymeriadau'r Pedwar Diben



Ein Taith

Cymraeg yw Taith ein Taith



Ysgol Gymraeg Trelyn

2018 - 2019

- Newid ein ffordd o gynllunio fel ei bod yn cynnwys y 6 Maes Dysgu.
- PL yn cyd-weithio gydag ysgolion y clwstwr
- Cyflwyno a chynllunio ar gyfer y Pedwar Diben fel rhan o brosiect Stirling.
- HMS i gyflwyno'r cwricwlwm a'r 12 egwyddor addysgeg.

2019 - 2020

- Treialu themâu cytûn y clwstwr.
- Lansio'r Pedwar Diben i gymuned yr ysgol a'u gosod yn ganolog i'r holl ddysgu ac addysgu.
- Staff yn gweithio o fewn y MDaPh
- Cyflwyno ymagwedd greadigol tuag at gynllunio.

2020 - 2021

- Creu cynlluniau tymor canol gyda deilliannau dysgu CiG wedi'u mapio er mwyn sicrhau cynnydd a dilyniant.
- HMS er mwyn gwerthuso themâu, cyflawni awdit sgiliau staff a mapio'r Pedwar Diben ar draws y camau cynnydd.
- Mapio profiadau pwysig.
- Cynllunio o fewn y camau cynnydd.

2021-2022

- Casglu gwybodaeth rhanddeiliaid yr ysgol trwy ddefnydd holiaduron.
- Cynnal wythnos '4 Diwrnod 4 Diben' er mwyn hyrwyddo pedwar diben CiG.
- HMS Clwstwr Cwm Rhymni yn ein meysydd dysgu.
- Hyfforddiant mathemateg & rhifedd ar draws yr ysgol.
- Cynnal cyfarfodydd tîmoedd MDaPh er mwyn gwerthuso'r sefyllfa bresennol a nodi'r ffordd ymlaen.
- Cynllunio ein hasesu gan ddefnyddio amrywiol strategaethau a fydd yn galluogi pob dysgwr unigol i wneud cynnydd ar gyflymder priodol.

2022- 2023

- Gweithredu'r Cwricwlwm Iechyd & Lles ac Addysg Rhyw a Pherthnasoedd .
- Sicrhau cyfleoedd Dysgu Proffesiynol er mwyn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth arweinwyr tîmoedd MDaPh

I'w barhau

Egwyddorion a phwrpas

Dysgwn gyda'n gilydd yn Ysgol Trelyn i ysgogi ac ysbrydoli ein disgyblion i fod y gorau y gallant fod. Dysgwn hefyd i fyw'n hapus a bod yn hyderus mewn byd sy'n newid drwy'r amser!

Buom yn gwrandao ar ddysgwyr, rhieni, staff a llywodraethwyr a'r 6 gair allweddol a gododd amlaf wrth drafod yr hyn sy'n bwysig i'r dysgwyr yn ein hysgol oedd eu bod yn:

hyderus
hapus
chwilfrydedd
cyfeillgarwch
diogel
cyfforddus

Mae cynhwysiant wrth wraidd ein hathroniaeth addysgol. Darparwn amgylchedd cyffrous a hapus lle caiff plant eu hannog i ddod yn ddysgwyr annibynnol. Mae pob plentyn yn cael ei werthfawrogi fel unigolyn ac yn cael addysg eang a chytbwys er mwyn iddynt ddod yn ddysgwyr aeddfed, cyfrifol a hapus, sy'n cyfrannu at ddiwylliant ac ethos yr ysgol a'r gymuned ehangach. Yn ôl ein rhanddeiliaid, y profiadau pwysig i'n plant yn ystod eu cyfnod yn Nhrelyn yw:

coginio
garddio
tyfu bwyd
sgiliau bywyd
profiadau dilys
chwaraeon
tripiau
eisteddfod

Beth yw ystyr cwricwlwm?



Dylai'r cwricwlwm fod wrth 'galon' unrhyw ysgol. Mae ein cwricwlwm yn ffordd gydlynus o feddwl er mwyn gwireddu ein gweledigaeth i sicrhau bod ein dysgwyr yn ddinasyddion uchelgeisiol, mentrus, egwyddorol ac iach. Mae ein cwricwlwm yn eang, yn gytbwys ac yn addas ar gyfer dysgwyr o wahanol oedrannau a galluoedd ac yn darparu ar gyfer cynnydd priodol ein ddysgwyr.

Pam ydyn ni'n addysgu hyn?

I ddarparu profiadau dysgu o ansawdd uchel, sy'n cyffroi ac yn ysgogi'r plant yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt.

Sut ydyn ni'n addysgu?

Bydd athrawon yn hwyluswyr dysgu. Gan ystyried anghenion, barn a chmau dysgu'r dysgwyr, byddant yn cynllunio profiadau hwyliog, heriol a dilys. Bydd gan ddysgwyr lais cryf i ddylanwadu ar eu dysgu. Fel yr arbenigwyr, y staff addysgu fydd yn cyfarwyddo'r dysgu i gyfeiriad priodol gan ystyried barn a syniadau'r dysgwyr. Bydd dysgwyr yn dylanwadu ar ddyluniad eu hamgylchedd dysgu. Byddant yn cael cyfleoedd i weithio mewn ffyrdd sy'n cyfoethogi eu dysgu a hefyd i gyflwyno eu gwaith yn eu ffordd bersonol unigryw eu hunain.



Themaau Clwstwr

Is-thema ysgol

Cam cynnydd 1

	Tymor 1	Tymor 2	Tymor 3	
Blwyddyn A 2023-24	Y Peiriant Amser Yr Ail Ryfel Byd / Y Dyfodol	Uwch fy mhen a dan fy nhraed Yr Aifft – Olwyn Ddysgu	Mentro	Pwy sydd ar y Brig?
	Dyma fi	Carped Hud	Ar lan y Môr	
Blwyddyn B 2020-21	Drws Dychymyg Dyfeiswyr a Degawdau	Dros Gymru'n Gwlad ½ tymor Byd heb Olau – Olwyn Ddysgu (1/2 tymor)	Ein Byd Rhyfeddol	Haf Heini
	Dyma fi	Dyma ni'n adeiladu	Mewn i'r Goedwig	
Blwyddyn C 2021-22	Y Peiriant Amser Byw mewn Bryngaer / Y Dyfodol	Uwch Fy Mhen a Dan Fy Nhraed (Fy Milltir Sgwar)	Creu Tonnau ½ tymor	Mentro ½ tymor Olwyn Ddysgu / Creu Busnes
	Dyma fi	Carped Hud	Ar lan y Môr	
Blwyddyn Ch 2022-23	Dros Gymru'n Gwlad Tu Hwnt i'r Ffos	Drws Dychymyg Oes Fictoria	Ein Byd Rhyfeddol Mewn i'r Goedwig	
	Dyma fi	Dyma ni'n adeiladu	Mewn i'r Goedwig	

Y PEDWAR DIBEN

Dysgwyf uchelgeisiol, galluog

- gosod safonau uchel iddyn nhw eu hunain ac yn chwilio am heriau ac yn eu mwynhau
- datblygu corff o wybodaeth ac sydd â'r sgiliau sydd eu hangen i gysylltu'r wybodaeth honno a'i chymhwyso mewn gwahanol gyd-destunau
- ymholgar ac yn mwynhau datrys problemau
- gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau, drwy'r Gymraeg a'r Saesneg
- gallu egluro'r syniadau a chysyniadau y maen nhw'n dysgu amdany'n nhw
- gallu defnyddio rhif yn effeithiol mewn gwahanol gyd-destunau
- deall sut i ddehongli data a chymhwyso cysyniadau mathemategol
- defnyddio technolegau digidol yn greadigol i rhannu gwybodaeth, dod o hyd iddi a'i dadansoddi
- ymchwilio ac yn gwerthuso eu canfyddiadau'n feirniadol
- ac sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau



Cyfrannwyf mentrus, creadigol

- cysylltu ac yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau i greu syniadau a chynnyrch
- meddwl yn greadigol er mwyn ail-lunio a datrys problemau
- adnabod cyfleoedd ac yn manteisio arny'n nhw
- mentro'n bwylllog
- arwain ac yn chwarae rolau gwahanol mewn timau'n effeithiol ac yn gyfrifol
- mynegi syniadau ac emosiynau drwy wahanol gyfryngau rhoi o'u hegri a'u sgiliau fel y bydd pobl eraill yn elwa ac sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith



Unigolion iach, hyderus

- â gwerthoedd sicr ac sy'n sefydlu eu credoau ysbrydol ac egwyddorol
- yn meithrin eu lles meddyliol ac emosiynol drwy ddatblygu hyder, cadernid ac empathi
- yn cymhwyso gwybodaeth am effaith deiet ac ymarfer corff ar iechyd corfforol a meddyliol yn eu bywyd pob dydd
- yn gwybod sut i ddod o hyd i'r wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen i gadw'n ddiogel ac iach yn cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol
- yn gwneud penderfyniadau pwylllog ynghylch eu ffordd o fyw ac yn rheoli risgâ'r hyder sydd ei angen i gymryd rhan mewn perfformiadau
- yn ffurfio cydberthnasau cadarnhaol wedi'u seilio ar ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd.
- yn wynebu heriau ac yn eu goresgynâ'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i ddelio â'u bywyd pob dydd mor annibynnol ag y gallan nhw
- ac sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.




Dinasyddion egwyddorol, gwybodus

- canfod, yn gwerthuso ac yn defnyddio tystiolaeth wrth ffurfio barn
- trafod materion cyfoes ar sail eu gwybodaeth a'u gwerthoedd
- deall ac yn arfer eu cyfrifoldebau a'u hawliau dynol a democrataidd
- deall ac yn ystyried effaith eu gweithredoedd wrth ddewis a gweithredu wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd yn awr ac yn y gorffennol
- parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelod o gymdeithas amrywiol
- dangos eu hymrwymiad i sicrhau cynladwyedd y blaned ac sy'n barod i fod yn ddinasyddion yng Nghymru a'r byd



Mae'r cwricwlwm yn Ysgol Trelyn yn cynnwys y 6 Maes Dysgu a Phrofiad, mae'n cwmpasu'r Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig ac yn adlewyrchu'r Egwyddorion Cynnydd.

Mae'n cynnwys yr elfennau cwricwlwm gofynnol ac yn cwmpasu'r sgiliau trawsgwricwlaidd gofynnol.



Cliciwch y MDaPh i weld canllawiau Cwricwlwm i Gymru

Rydym wedi casglu ynghyd ystod eang o brofiadau, gwybodaeth a sgiliau sy'n cael eu harchwilio drwy amrywiaeth o gyd-destunau, pynciau a gweithgareddau wrth ddylunio cwricwlwm.

Mae gennym dimau MDaPh sydd wedi cydweithio i ddatgloi'r 27 Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig i greu cysylltiadau ar draws yr holl MDaPh fel sy'n briodol.

Cefnogwn ein dysgwyr i ymroi i'w dysgu mewn dyfnder a soffistigeiddrwydd cynyddol dros gyfnod o amser. Rydym yn helpu dysgwyr i gymhwyso eu dysgu mewn cyd-destunau sy'n gynyddol heriol ac yn caniatáu ar gyfer dargyfeirio, atgyfnerthu a myfyrio wrth i'w dealltwriaeth a'u defnydd o'r dysgu allweddol ddatblygu a dod yn fwy cywain dros amser, gan ysgogi meddwl dwfn, trafodaeth ac ymholi.

12 egwyddor addysgegol

Cynllunio'r gwaith o gyflwyno ein cwricwlwm

Yn Ysgol Trelyn rydym yn rhoi gwybodaeth a sgiliau disgyblaeth-benodol i'n dysgwyr.

Rydym yn eu haddysgu'n uniongyrchol ar ddechrau pob diwrnod er mwyn datblygu meistrolaeth ieithoedd a mathemateg, a hynny mewn dosbarthiadau a grwpiau sy'n unol ag oedran a chfnod. Am weddill y diwrnod bydd dysgwyr yn dewis ac yn mynd ar drywydd 'Cwestiwn Mawr' tymhorol.

Grym Llais y Disgybl

Mae dysgwyr yn chwarae rhan ganolog yn y gwaith o gynllunio'r 'Cwestiwn Mawr' bob tymor. Cynhelir sesiynau 'Llais y plant' yn y dosbarth yn gyson i sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio.

Iechyd a Lles

Mae Iechyd a Lles pawb yn ffocws ac yn flaenoriaeth ar draws popeth a wnawn yn Ysgol Trelyn. Maent yn cael amser myfyrio ynghyd â chyfleoedd dysgu yn yr awyr agored i wella eu dysgu.

Mae dysgu ac addysgu da yn:

canolbwyntio'n gyson ar ddibenion cyffredinol y cwricwlwm

rhoi her i'r holl ddysgwyr drwy eu hannog i gydnabod pwysigrwydd ymdrechu'n barhaus i gwrdd â disgwyliadau sy'n uchel, ond o fewn eu cyrraedd

defnyddio cymysgedd o ddulliau sy'n cynnwys addysgu uniongyrchol

defnyddio cymysgedd o ddulliau gan gynnwys y rheini sy'n hybu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a'r gallu i feddwl mewn modd beirniadol

golygu gosod tasgau a dewis adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac yn ennyn diddordeb

creu cyd-destunau dilys ar gyfer dysgu

dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu

ymestyn oddi mewn ac ar draws y Meysydd

atgyfnerthu yn rheolaidd y sgiliau trawsgwricwlaidd, sef llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, ac yn darparu cyfleoedd i'w hymarfer

annog dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu eu hunain


hybu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a chydberthnasau cadarnhaol

hybu cydweithio



Beth ydyn ni'n gwneud?
Sut ydyn ni'n ei gwneud?
Pam ydyn ni'n ei gwneud?

Cynnydd ac Asesu



Ein rôl ni yn y pontio ar hyd y continwwm 3 i 16

Mae'r dysgwyr wrth galon y broses bontio. Rydym yn cefnogi pob dysgwr ar hyd y continwwm dysgu, wrth iddynt symud rhwng gwahanol grwpiau, gwahanol ddosbarthiadau, gwahanol flynyddoedd a gwahanol leoliadau. Rydym yn sicrhau bod lles pob dysgwr yn rhan bwysig ac annatod o'n prosesau, gan gydnabod anghenion unigolion, ar yr un pryd â chefnogi dilyniant a chynnydd yn eu dysgu. Mae ein dealltwriaeth o bob dysgwr unigol, a geir drwy ein strategaethau asesu, yn hanfodol i gefnogi'r broses hon.

Camau Cynnydd

Yr Arweinwyr Dysgu sy'n gyfrifol am Ddylunio'r Cwricwlwm, gan sicrhau sylw priodol i'r Meysydd Dysgu a Phrofiad a dilyniant a chynnydd priodol o fewn eu cam.

Mae'r Arweinwyr Dysgu yn gweithio gyda'r Uwch Dîm Arwain i gyfrannu at y 'darlun ehangach', gan sicrhau dilyniant a chynnydd drwy'r ysgol gyfan.

Cam Cynnydd 1	Meithrin a Derbyn
Cam Cynnydd 2	Blynyddoedd 1, 2 a 3
Cam Cynnydd 3	Blynyddoedd 4, 5 a 6

Asesu


Mae dilyniant dysgwyr ar hyd continwrm dysgu rhwng 3 ac 16 oed yn ganolog i'r Cwricwlwm i Gymru. Byddwn yn defnyddio amrywiol strategaethau asesu a fydd yn galluogi pob dysgwr unigol i wneud cynnydd ar gyflymder priodol, gan sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi a'u herio yn unol â hynny.

Defnyddiwn amrywiol strategaethau asesu fel diben cyffredinol yn y cwricwlwm i gefnogi pob dysgwr i wneud cynnydd. Yn ogystal â hyn, mae asesu yn chwarae rôl sylfaenol mewn sicrhau bod pob dysgwr unigol yn cael ei gefnogi a'i herio'n briodol ac rydym yn defnyddio'r strategaethau i gyfrannu at ddatblygu darlun cyflawn o'r dysgwr – ei gryfderau, y ffyrdd y mae'n dysgu, a'i feysydd i'w datblygu – er mwyn llywio'r camau nesaf o ran dysgu ac addysgu.

Mae ein hasesiadau'n cefnogi cynnydd dysgwyr unigol yn barhaus o ddydd i ddydd (AGD - asesu ar gyfer dysgu); yn nodi, cofnodi a myfyrio ar gynnydd dysgwyr unigol dros amser; ac yn deall cynnydd grwpiau er mwyn adlewyrchu ar ein hymarfer.

Cyfathrebu ac ymgysylltu gyda rhieni/gofalwyr

Rydym yn cyfathrebu'n effeithiol gyda rhieni/gofalwyr yn barhaus i feithrin perthnasoedd cadarnhaol er mwyn eu cynnwys mewn deialog pwrpasol ac ystyrlon. O wneud hyn yn dda, gall hyn helpu cynnydd dysgwyr drwy helpu rhieni/gofalwyr i ddeall sut y gallant gefnogi dysgu y tu mewn a thu allan i amgylchedd yr ysgol. Rydym wedi datblygu a gweithredu prosesau sy'n cefnogi cyfathrebu ac ymgysylltu dwy ffordd effeithiol gyda rhieni/gofalwyr. Wrth ddatblygu'r prosesau hyn, ystyriwyd defnyddio amrywiaeth eang o wahanol ddulliau cyfathrebu, e.e. wyneb yn wyneb, digidol drwy Class Dojo ac e-bost. Mae gwybodaeth am unrhyw gymorth, ymyraethau neu anghenion ychwanegol sydd eu hangen ar gyfer datblygiad y dysgwr yn cael ei rhannu gyda rhieni a gofalwyr.





Mae clwstwr Cwm Rhymni wedi ymrwymo i wireddu pedwar diben y cwricwlwm drwy:

- ennyn balchder yn ein dysgwyr, eu cymunedau a'u hunaniaeth
- rhoi lles wrth galon ein hysgolion
- meithrin llwyddiant er mwyn agor byd o gyfleoedd
- hyrwyddo tegwch a chydraddoldeb wrth ddathlu amrywiaeth
- ysbrydoli chwilfrydedd a thanio cariad at ddysgu gydol oes
- grymuso dysgwyr i feithrin cysylltiadau ar draws eu dysgu